

Prifysgol Aberystwyth

yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016

Ceir rhaglen eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar stondin Prifysgol Aberystwyth eleni, felly galwch draw i'n gweld... Bydd gwledd yn eich disgwyl.

Dydd Llun, 1^{af} o Awst

10.30am 'Degawd o newid: Teledu a Chymdeithas yng Nghymru yn y 1970au' Dywedodd yr hanesydd John Davies fod y 1970au yn gyfnod o 'gynnwrf mawr yn hanes gwleidyddiaeth darlledu yng Nghymru'. Fe fydd Dr. Jamie Medhurst yn trafod y datganiad hwn ac yn cyflwyno prosiect ymchwil newydd a gyllidir gan Ymddiriedolaeth Leverhulme ar hanes teledu yng Nghymru, a pherthynas teledu a chymdeithas yng Nghymru, yn y degawd cythryblus hwn.

12.30pm Lansio partneriaeth Swyddle a Cais. Ymunwch â ni i ddatlu lansiad partneriaeth newydd gyda'r amcan o gyfuno adnoddau er mwyn cynyddu cyfleoedd gyrfaoedd yn y sector addysg.

3.00pm 'Derbynioldeb teleiechyd i fonitro clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chlefyd siwgr'

Dr Rachel Rahman, Adran Seicoleg y Brifysgol, yn cyflwyno ymchwil sy'n edrych ar brofiadau cleifion o ddefnyddio technoleg i'w cynorthwyo i gadw rheolaeth ar eu cyflyrau eu hunain.

4.30pm Seremoni'r Coroni Dewch draw i wyllo'r Coroni dros baned a chacen.

Dydd Mawrth, 2^{il} o Awst

12.30pm – 1.30pm 'Celf Byw i Bawb' Tynnu llun ar gefn oedolyn. Brwydro efo sôs coch. Gwisgo bwyd. Bydd Dr Gareth Llŷr Evans o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn arwain **gweithdy Celf Byw**, sy'n addas i bawb dros 6 oed.

2.00pm 'Cyfiawnder Cymreig ym Mhatagonia: cwmpawd moesol a grym moesol' Dr Lucy Taylor o'r Adran Gwleidyddiaeth Rynghwladol fydd yn trin ac yn trafod.

Dydd Mercher, 3^{ydd} o Awst

10.30am-11.30am 'Datblygu Economaidd gyda'r Gymraeg a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: beth nesaf?' Lansio Astudiaeth Sgopio gan Brifysgol Aberystwyth ar weithredu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg trwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Cymru.

12.00pm Darlith flynyddol E G Bowen - Yr Athro Rhys Jones, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daera, fydd yn trafod 'Etifeddiaeth E G Bowen ar gyfer polisi iaith yng Nghymru'.

2.00pm – 4.00pm Aduniad Mawreddog Prifysgol Aberystwyth Cyfle gwych i bawb sydd wedi astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ar unrhyw gyfnod ddod i gwrdd â'i gilydd ar faes yr Eisteddfod. Darperir lluniaeth ysgafn a chewch gyfle i hel atgofion gyda hen ffrindiau. Croeso i bawb!

Dydd Iau, 4^{ydd} o Awst

11.00am 'Cerddi pymtheng mlynedd' Mae'n bymtheng mlynedd ers i Eurig Salisbury a Hywel Griffiths ddod yn lasfyfyrwyr i'r coleg ger y lli. Erbyn hyn mae'r ddau'n ddarlithwyr yn y brifysgol, ac mae Aberystwyth wedi chwarae rhan bwysig iawn yn eu gyrfaoedd fel beirdd ac fel academyddion. Dewch i wrando ar ambell gerdd ac ar straeon am eu hanturiaethau yn Aberystwyth.

12.00pm-2.00pm 'Polisi a Chynllunio Iaith: ymchwil ddiweddar o Aberystwyth' Sesiwn dan ofal Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru yng nghwmni Dr Catrin Wyn Edwards, Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles, yr Athro Rhys Jones, Osian Elias a Dyfan Powell.

3.00pm Seremoni Wobrwyo "Her Gyfieithu 2016" Cyfnewidfa Lân Cymru Prifysgol Aberystwyth mewn cydweithrediad â PEN Cymru, Prifysgol Abertawe, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Desg Gymorth Llywodraeth Cymru Ewrop Greadigol.

Dydd Gwener, 5^{ed} o Awst

11.00am-12.00pm 'Cer ati da'r Karate' Cyfle i ymarfer eich sgiliau Karate trwy gyfrwng y Gymraeg gyda Dafydd Morse. Mae'r sesiwn yn addas ar gyfer dysgwyr a siaradwyr rhugl.

12.30pm Gweithdy datblygu CV gyda staff Swyddle a Cais a chyfle i glywed profiadau o weithio ym myd addysg.

2.30pm Blas ar ymchwil Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Panel trafod bywiog yn cyflwyno rhai o fyfyrwyr ymchwil Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, eu profiadau ac ychydig am eu meysydd unigol. Cawn flas ar farddoniaeth T. Llew Jones, edrych (ynghyd â gwrando!) ar gerddoriaeth sy'n farddoniaeth, mentro i ofodau a dyfodolau pell, a chwestiynu faint yn union o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan elusennau.

3.30pm Aduniad Ganol Haf UMCA Cyfle i fyfyrwyr cyfredol UMCA gwrdd ar stondin y Brifysgol dros sgwrs, lluniaeth ysgafn ac adloniant.

4.30pm Seremoni'r Cadeirio Cyfle i wyllo'r Cadeirio ar ein sgrîn fawr dros baned a chacen.

Hefyd ar y stondin:

UMCA | Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr | Her Seiclo | Cornel plant | Sgrîn fawr | Taith rithwir - gweld Aber mewn 360° | Paned am ddim... a llawer mwy

Prifysgol Aberystwyth yw Prif Noddwr y Babell Wyddoniaeth a Thechnoleg eleni. Galwch heibio i roi tro ar weithgareddau amrywiol a darganfod mwy am ein gwaith ymchwil arloesol sydd o safon rhyngwladol.



@Prifysgol_Aber | @PrifAber_IR
#CaruAber

Prifysgol Aberystwyth yn y Brifwyl... Rhywbeth at ddant pawb